**LC1503**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ynys Môn) 2007

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi Ynys Môn (ac eithrio'r A55) fel ardal barcio a ganiateir ac ardal barcio arbennig yn unol ag Atodlen 3 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 ac yn cymhwyso, gydag addasiadau, darpariaethau penodedig Rhan II o'r Ddeddf honno i'r ardal a ddynodir. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn addasu Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 mewn perthynas â'r ardal honno.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Mae'r Gorchymyn hwn yn dilyn Gorchymyn tebyg a wnaed y llynedd mewn perthynas â Chonwy ac yn gynharach eleni mewn perthynas â Gwynedd. Er ei fod yn ymddangos fel offeryn statudol lleol, mae'r Gorchymyn hwn yn dilyn gweithdrefn lawn Rheol Sefydlog 24 gan fod y Ddeddf Traffig Ffyrdd yn darparu ar gyfer cymhwyso gweithdrefn seneddol ar gyfer gorchmynion o'r fath.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**20 Mawrth 2007**